## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**15 Gorffennaf 2015**
**12:30-13:20**
**Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel**

| YN BRESENNOL: | | |
|---|---|---|
| | | |
| **David Rees AC** (Cadeirydd) | **DR** | Aberafan (Llafur Cymru) |
| **Mike Hedges AC** | **MH** | Dwyrain Abertawe (Llafur Cymru) |
| | | |
| **Ioan Bellin** | **IB** | Staff Cymorth Simon Thomas AC |
| **Shannon Curran** | **SC** | Staff Cymorth David Rees AC |
| **Siân Donne** | **SDo** | Staff Cymorth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / Kirsty Williams AC |
| **Craig Lawton** | **CL** | Staff Cymorth Suzy Davies AC |
| **Mark Major** | **MM** | Staff Cymorth Altaf Hussain AC |
| **Claire Stowell** | **CS** | Staff Cymorth Rebecca Evans AC |
| | | |
| **Katie Dalton** (ysgrifennydd) | **KD** | Gofal |
| **Suzanne Duval** | **SDu** | Diverse Cymru |
| **Emma Harris** | **EHa** | Y Samariaid |
| **Ewan Hilton** | **EHi** | Gofal |
| **Richard Jones** | **RJ** | Mental Health Matters Wales |
| **Sarah Stone** | **SS** | Y Samariaid |
| **Jonathan Willey** | **JW** | Hafal |

| CPGMH/NAW4/46 - Croeso ac ymddiheuriadau | Camau gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd **DR** bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl.<br><br>**Ymddiheuriadau gan aelodau absennol:**<br>• Bethan Jenkins AC (Plaid Cymru)<br>• David Melding AC (Ceidwadwyr Cymreig)<br>• Eluned Parrott AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)<br>• Gwenda Thomas AC (Llafur Cymru)<br>• Rhiannon Hedge (Mind Cymru)<br>• Linda Newton (Gweithredu ar Iechyd Meddwl Cymru)<br>• Janet Pardue-Wood (Mind Cymru) | |
| **CPGMH/NAW4/47 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| **CYMERADWYWYD**<br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf. | |
| **CPGMH/NAW4/48 - Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| Rhoddodd **KD** y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y camau a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf.<br><br>**CPGMH/NAW4/24 - Mynediad at therapi seicolegol yng Nghymru a ffyrdd o'i ddarparu**<br>**CAM I'W GYMRYD: KD** i ddosbarthu ymateb y Gweinidog i'r Aelodau<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF:** Mae'r llythyr gwreiddiol a'r ymateb wedi cael eu dosbarthu<br><br>**CPGMH/NAW4/40 - Adolygiad o'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl**<br>**CAM I'W GYMRYD: KD** i ddosbarthu'r cwestiynau a'r wybodaeth berthnasol arall i Aelodau'r Cynulliad<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF:** Mae'r cwestiynau a gwybodaeth bellach wedi cael eu dosbarthu<br><br>**CPGMH/NAW4/41 - Adroddiad Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** | **KD** i ofyn i Mind Cymru am hyn |

| | |
|---|---|
| **CAM I'W GYMRYD: RC** i gasglu gwybodaeth am waith NCMH a'i dosbarthu<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF:** Anhysbys - RC wedi gadael Mind Cymru ers hynny<br><br>**CPGMH/NAW4/45 - Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**<br>**CAM I'W GYMRYD: KD** i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol / Datganiad Ariannol i'r Swyddfa Gyflwyno.<br>**Y WYBODAETH DDIWEDDARAF:** Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno. | |
| **CPGMH/NAW4/49 - Cipolwg 3: Profiadau pobl o wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yng Nghymru** | **Camau gweithredu** |
| Rhoddodd **KD** gyflwyniad am ganlyniadau trydydd arolwg blynyddol Gofal am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol yng Nghymru.<br>Mae'r adroddiad llawn ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Gofal: www.gofal.org.uk/primary-mental-health-services/ | **KD** i anfon y cyflwyniad at aelodau. |
| **CPGMH/NAW4/50 - Siarad â fi 2** | **Camau gweithredu** |
| Dywedodd **SS** wrth y grŵp y byddai Siarad â Fi 2, strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed Llywodraeth Cymru 2015-10, yn cael ei lansio'r diwrnod canlynol yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd. Dywedodd **SS** fod y Samariaid yn falch bod y strategaeth wedi cael ei ddiweddaru. Cyfrannodd y Samariaid at ddatblygu'r strategaeth newydd, gan bwysleisio'r angen i weithredu ar draws nifer o sectorau gwahanol. | **KD** i gylchredeg linc i Siarad â Fi 2 ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. |
| **CPGMH/NAW4/51 - Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2** | **Camau gweithredu** |
| Esboniodd **KD** mai strategaeth traws-lywodraeth Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles yng Nghymru yw Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Ychwanegodd KD bod cyfres o gynlluniau cyflenwi byrrach yn rhedeg ochr yn ochr â'r strategaeth 10 mlynedd a bod yr ail gynllun cyflanwi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cyflwynodd **KD** y ddogfen yr ysgrifennodd Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru i fwydo i mewn i ddatblygiad cynllun cyflawni nesaf | |

| | |
|---|---|
| Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br><br>Pwysleisiodd **KD** bwysigrwydd:<br>• gweithredu ac atebolrwydd traws-lywodraeth<br>• sicrhau bod canlyniadau Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael eu gweithredu drwy bolisïau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys portffolios heblaw am iechyd)<br>• casglu a chyhoeddi data clir ar ganlyniadau<br><br>Cytunodd **DR** y dylai gwella iechyd meddwl fod yn fusnes i bawb a'i bod yn bwysig bod yr holl Weinidogion a'r holl sectorau yn chwarae eu rhan wrth gyflwyno Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br><br>Nododd **KD** (yn sgil y ffaith bod Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn strategaeth ar draws y llywodraeth) y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Aelodau'r Cynulliad gyflwyno cwestiynau i holl Weinidogion Llywodraeth Cymru (h.y. nid i'r Gweinidog Iechyd yn unig) i holi beth y maen nhw neu eu hadrannau wedi'i gyfrannu tuag at gyflwyno Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br><br>Pwysleisiodd **EH** pa mor bwysig ydyw bod yr ail gynllun cyflenwi yn canolbwyntio ar ganlyniadau fel y gallwn benderfynu a oes cynnydd wedi'i wneud wrth i'r strategaeth gael ei gweithredu.<br><br>Bu **SS** yn sôn am bwysigrwydd amlygu a lliniaru'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.<br><br>Gofynnodd **SD** pwy fyddai'n gyfrifol am gasglu'r data.<br><br>Dywedodd **KD**, at ddibenion y strategaeth, mai Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod y data cywir yn cael ei gasglu ond y realiti yw y gallai llawer o wahanol asiantaethau wneud hynny - er enghraifft: byrddau iechyd (canlyniad i gleifion a data boddhad); y trydydd sector (data ar stigma a gwahaniaethu drwy Amser i Newid Cymru); ysgolion, colegau a phrifysgolion (lles myfyrwyr/staff); cyflogwyr yn y sector cyhoeddus (lles gweithwyr), prosiectau cymunedol a gwrthdlodi (data ar les a gwydnwch cymunedol). Ychwanegodd KD y gallai casgliadau o ddata presennol ar draws gwahanol sectorau gael eu defnyddio neu'u haddasu. Byddai'n well atgyfnerthu a symleiddio'r prosesau casglu data sy'n bodoli eisoes lle y bo'n bosibl. | **KD** i ofyn i Aelodau'r Cynulliad sy'n rhan o'r grŵp trawsbleidiol i gyflwyno cwestiynau i'r holl Weinidogion am eu cyfraniadau at gyflwyno Law yn Llaw at Iechyd Meddwl |

| CPGMH/NAW4/52 - Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | Camau gweithredu |
|---|---|
| Pwysleisiodd **IB** bod ei swyddfa wedi trefnu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a staff Comisiwn y Cynulliad er mwyn gwella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o broblemau iechyd meddwl. Bwriedir cynnal y hyfforddiant ar 29 a 30 Gorffennaf 2015. Gwahoddodd **IB** unrhyw aelodau o staff y Cynulliad sydd â diddordeb yn y hyfforddiant i gysylltu ag ef cyn gynted ag y bo modd. | **AMSS** i gysylltu ag IB os oes ganddynt ddiddordeb mewn hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl |
| Diolchodd **DR** i bawb am ddod. | |